**CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**06.06.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) TAJ; IW; AR; RJ;EY;DP<br>**Ymddiheuriadau:** Cyng. LLMH; JAJ; DAW;GW,RY;EO<br>**Mynychu:** SWR; Cyng JL<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd JL ddiddordeb mewn unrhwy faterion Menter Môn, Cyng RJ mewn trafodaethau am y Byrddau Snwcer |
| 3 | **Cofnodion 13.05.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 13.05.24 fel rhai cywir (AR/IW)<br>**Materion yn Codi**<br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** dim diweddariad i law.<br>• **Gwaredu Byrddau Snwcer –** Nododd RJ ei fod wedi derbyn galwad ffôn gan rhywun sydd a diddordeb ail-ddechrau'r Clwb Snwcer. Cytunwyd yn unfrydol na ellir ail-feddwl ar y penderfyniad i'r Ysgol gael y stafell i greu dosbarth, yn hytrach na'r Caban trydydd llaw presennol. Dywedodd JL bod un arall a diddordeb cael y byrddau – cytunwyd iddi holi ymhelllach a dod 'nôl at y Clerc. Cytunwyd hefyd i'r Clerc RJ a IW fynd i weld yr Unedau 1; 5 a 6 i ystyried storio y byrddau yno dros dro. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Nodwyd yw CSYM yn bwriadu gweithio ar y stafell dros gyfnod gwyliau'r haf yna bydd rhaid eu symud. Cytunwyd i'r Clerc ofyn i CSYM ei symud ar ein rhan fel rhan o'r cytundeb i ryddhau'r stafell.<br><br>• **Menter Môn** – dim diweddariad. Mynegwyd cryn bryder am greu grwp Cymunedol arall yn y pentref. Deallwyd yr egwyddor o ysgafnhau baich statudol y Cyngor Cymdeithas ond holwyd os na fyddai Grwp LlanNi yn gymmwys i weithredu fel hyn. Cytunwyd i drafod ymheallch yn ein cyfarfod nesaf.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn **– 06.06.24** |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Diweddariad Hwb LlanNi –** nododd y Clerc bod taliad cyntaf y Loteri Fawr i law sef £35,663 a bod taliad y rhent am y 5 mlynedd nesaf yn £24 932. Mae'r les hefyd bron a chwblhau ac yna bydd y goriadau yn cael eu cyflwyno i Grwp LlanNi. Mae dyddiad dechrau'r addasiadau wedi ei nodi ar gyfer 1 Gorffennaf 2024<br><br>• **Prosiect Môn Actif** – cyfeirwyd at y brosiect yma drafodwyd yng nghyfarfod mis Mai. Roedd cyfarfod cyntaf y grwp neithiwr ac, er i'r Clerc anfon ebost yn gofyn am gynrychiolaeth, ni chafwyd ymateb. Cytunwyd i'r Clerc holi sut aeth y cyfarfod ac i roi hwn ar raglen mis nesaf eto er mwyn pennu cynrychiolydd. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mai** – **£**<br>Cyflog Clerc – Mai yn cynnwys taliad ZOOM £15.59 450.08<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Addasiad cyflog mis Mai 209.11<br>Taliad Ebay i'r Clerc am 'Home Mesh Wi-fi single mode' 54.00<br>Noddi taith noddedig Tomos Jones – taliad uniongyrchol i Glwb Peldroed Ieuenctid LLan 100.00<br>Scottish power – CPD 180.96<br>Scottish Power – Golau Dolig 165.78<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £12,907.16<br>Cyfrif Cadw: £16549.76 |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Nododd y Clerc ei bod wedi trosglwyddo £10K i'r cyfrif cadw ac wedi holi am gyfrif gorau ar gyfer ein arbedion. Cytunwyd i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Eglurodd y Clerc bod diffyg yng nghyflog mis Mai eto gan na chafodd addasiad mewn pryd gan y Cyfrifydd. Mae bellach wedi gofyn i'r cyfrifydd anfon ffigwr er mwyn gallu addasu'r archeb banc am y cyflog o hyn ymlaen.<br><br>Eglurodd hefyd am sefyllfa ariannol Grwp Llan Ni – *gweler uchod. .* |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br><br>Dim i law |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** nodwyd bod y Cyngor Sir mewn cyfnod *'purdah'* o ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol. |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel -** Clerc wedi cysylltu a Dylan Edwards CSYM a Rhys Jones Asiant Eiddo i holi am bapur opsiynau. RJ yn hapus i weithredu ond yn argymell aros am ateb gan Dylan Edwards.<br><br>DE ddim yn gallu rhoi cymorth felly Clerc i holi RJ.<br><br>**Safle'r Stesion –**. Clerc wedi cysylltu a Meirion Greives, cytunodd i wneud ymweliad safle ac adrodd yn ôl – dim i law. Cytunwyd i ofyn iddo hefyd osod y ddwy fainc – Bryncir a Cae Gofeb. .<br><br>**Lawnt Fowlio –** Ymateb i law yn nodi bodlonrwydd i drosglwyddo arian yn eu cyfrif i'r Cyngor Cymdeithas gyda'r amodau canlynol:-<br>• £100 i Glwb Peldroed Ieuenctid LLan<br>• £100 i Glwb Peldroed Oedolion LLan<br>• £100 i noddi twll yng Nghystadleuaeth Golff LLan<br>• £100 i Ysgol Gynradd Llan<br>• Cyngor i gadarnhau clustnodi gweddill yr arian sef £2810.32 i bwrpas cynnal a chadw'r Clwb yn unig ac nid ar gyfer unrhyw wariant amgen.<br><br>Cytunwyd i TAJ gysylltu hefo Mr G Roberts i gadarnhau derbyn yr amodau. Clerc i ysgrifennu llythyr ffurfiol i Mr G Roberts a Mr E Hughes a gweithredu'r amodau.<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Mynwentydd** –GW a'r Clerc wedi cynnal ymweliad safle. Nodwyd bod modd ychwanegu rhes gen ochr wal terfyn gwaleod. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Cae gofeb –** Cyflwynodd y Clerc ddyluniad bras o gofeb Byddin y Tir sydd wedi ei anfon at Sion Roberts y Saer Maen. Bydd dyluniad ffurfiol ganddo i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd ar y Rhaglen gyda'r canlynol yn ychwanegol - dim sylwadau pellach.<br>• Tirluniau Rob Piercy *Landscapes* – Oriel Môn<br>• Cyhoeddiad am Wylfa *announcement.*<br>• Hwb economiadd o gronfa ARFORDIR *economic boost*<br>• Llythyr LLC ar 20 mya - *correspondence from WG regarding 20mph*<br>• Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd CSYM - *Chair and Vice Chair elected for IoACC*<br>• Datblygu Cynllun Datblygu Lleol - *Local Development Plan*<br>• Fforwm Iaith CSYM - *IoACC Language Forum* |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8.40* |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com